
Cardiff County
MUSIC SERVICE
Vale of Glamorgan



Sir Caerdydd
GWASANAETH CERDD
Bro Morgannwg

GWERSI CERDDORIAETH MEWN YSGOLION

PECYN GWYBODAETH I RIENI

Cynnwys

<u>Cyflwyniad</u>	3
<u>Ffioedd a Mathau o Wersi</u>	4
<u>Telerau ac Amodau</u>	5
<u>Cyfarwyddiadau Cofrestru</u>	7
<u>Anfonebau</u>	15
<u>Cwestiynau Cyffredin</u>	16

CYFLWYNIAD

Os ydych yn ystyried cofrestru eich plentyn ar gyfer gwersi cerddoriaeth yn yr ysgol, darllenwch yr wybodaeth ganlynol.

Er mwyn cael gwersi cerddoriaeth gan Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg, rhaid i'ch plentyn fod wedi'i gofrestru ar ein system. Ni fydd modd rhoi gwersi i'ch plentyn os nad yw wedi'i gofrestru.

Os oes angen i chi gysylltu â ni, gweler y manylion isod.

Cyfeiriad post: Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW

Ffôn: 029 2087 2951 neu 029 2087 2883

E-bost: gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk

Oriau Agor y Swyddfa

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am – 4pm

Mae gan Wasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg athrawon peripatetig sy'n rhoi gwersi cerddoriaeth mewn ysgolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gwersi cerddoriaeth yn cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol. Mae'r offeryn yn amrywio o ysgol i ysgol. Bydd modd i chi weld pa offerynnau sy'n cael eu cynnig yn ysgol eich plentyn pan fyddwch yn dechrau'r broses gofrestru, neu gallwch gysylltu â'r Swyddfa Gerddoriaeth i gael gwybodaeth.

Gan fod gwersi ysgolion yn cael eu darparu yn ystod oriau ysgol, bydd yr athro a'r ysgol yn ceisio sicrhau nad yw disgyblion yn colli pynciau craidd.

Mae'r gwersi cerddoriaeth ar gael o lefel ddechreuwr ac uwch. Gallai eich plentyn ymgeisio am raddau os ydynt yn dymuno.

Nodwch: mae cyfyngiadau oedran mewn rhai ysgolion ar gyfer cael gwersi. Cysylltwch â'r Swyddog Cerddoriaeth am fwy o wybodaeth. Mae cyfyngiadau oedran ar offerynnau penodol, e.e. chwythbrennau ac offerynnau pres. Gall hyn fod oherwydd rhychwant bysedd y plentyn neu gan nad oes ganddo ei ddannedd oedolyn. Os hoffech gael gwybodaeth am ddewis offeryn i'ch plentyn, cliciwch y ddolen <http://www.ccvgmusicsservice.org>

Os oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol, rhowch wybod i'r Swyddfa Gerddoriaeth er mwyn hysbysu'r athro.

Mae rhai ysgolion yn caniatáu i ddisgyblion ddysgu mwy nag un offeryn. Gwiriwch gyda'r ysgol unigol. Os yw eich plentyn yn dysgu mwy nag un offeryn, bydd angen i chi gofrestru ar gyfer y ddau.

FFIOEDD GWERSI CERDDORIAETH 2018/2019

Math y Wers	Ffi ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/2019 – Medi 2018 – Gorffennaf 2019
Grŵp	£57.00 y tymor
Mewn pâr am 20 munud	£74.00 y tymor
Mewn pâr am 30 munud	£110.00 y tymor
Yn unigol am 15 munud	£110.00 y tymor
Yn unigol am 20 munud	£146.00 y tymor
Yn unigol am 30 munud	£218.00 y tymor

Mae tri thymor i flwyddyn academiaidd.

Tymor yr Hydref – Mis Medi hyd at y Nadolig

Tymor y Gwanwyn – Mis Ionawr hyd at y Pasg

Tymor yr Haf – Y Pasg hyd at ddiwedd flwyddyn yr ysgol

Math y Wers

Mae Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnig tri math o wersi i rieni:

Math y Wers	Disgrifiad
Grŵp	Mae gwersi grŵp yn seiliedig ar 4 disgybl yn cael gwर्स 30 munud gyda'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn dewis yr opsiwn hwn gan eu bod yn mwynhau dysgu gyda'u cyd-ddisgyblion, yn enwedig ar lefel ddechreuwyr. Os nad oes digon o ddisgyblion i ffurfio grŵp o 4, caiff amser y wers ei addasu'n briodol.
Gwersi mewn pâr	Mae gwर्स mewn pâr yn ddewis ardderchog i ddisgyblion sydd am wneud cynnydd da, ac sydd am weithio tuag at sefyll arholiadau. Mae'n dibynnu ar gael dau ddisgybl ar yr un lefel i fod yn bâr i'w gilydd, ond gellir trefnu hyn yn y rhan fwyaf o achosion.
Gwersi unigol	Mae rhai disgyblion yn ffynnu ar gael gwर्स unigol, yn enwedig os ydynt yn sefyll arholiadau lefelau uwch, neu efallai os oes well ganddynt gael sesiynau un-i-un.

Ar ôl i chi benderfynu ar y dewis gorau i'ch plentyn, nodwch eich diddordeb. Os nad yw'n bosibl cynnig y fformat o wersi rydych wedi'i ddewis, byddwn yn cysylltu â chi i gynnig dewis arall i chi.

TELERAU AC AMODAU

Sicrhewch eich bod yn deall y telerau ac amodau oherwydd gofynnir i chi gytuno arnynt yn ystod y broses gofrestru.

1. Bydd Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro yn ceisio rhoi 35 gwerau fesul flwyddyn academaidd. Mae hyd tymhorau ysgol yn amrywio a bydd hyn yn effeithio ar nifer y gwerau a roddir mewn unrhyw un tymor. Mae'r ffioedd ar gyfer y tymor ac nid ar gyfer y gwerau a roddir. Wrth gofrestru ar gyfer gwerau, rydych yn ymrwngwng i'r tymor llawn.
2. Dod â gwerau i ben – Er mwyn tynnu eich plentyn o gael gwerau, rhaid i chi roi rhybudd o hanner tymor o leiaf, a hynny yn ysgrifenedig i'r gwasanaeth cerdd. Bydd y gwerau'n dod i ben ar ddiwedd y tymor hwnnw. Os bydd gwerau'n dod i ben hanner ffordd drwy'r tymor, rhaid talu'r ffioedd am y tymor cyfan. Rhaid i'r rhybudd ysgrifenedig gael ei dderbyn erbyn y dydd Gwener cyn hanner tymor, ynglŷn â gorffen ar ddiwedd y tymor. Ysgrifennwch at 'Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW' neu e-bostiwch gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk i dynnu eich plentyn o wersi. **Ni fydd rhoi rhybudd ar lafar neu yn ysgrifenedig i'r athro yn cael ei ystyried yn ddigonol. Yn absenoldeb y rhybudd ysgrifenedig hwn, bydd angen talu gwerth tymor arall o ffioedd.**
3. Newidiadau i wersi – Os hoffech newid y math o wersi y mae eich plentyn yn ei gael, e.e. gwerau grŵp i wersi mewn pâr ac ati, rhowch wybod i'r swyddfa ar unwaith yn ysgrifenedig. Bydd rhaid i ni gysylltu â'r athro i weld a yw hyn yn bosib. Nodwch na ellir newid y math o wersi hanner ffordd drwy'r tymor; mae angen o leiaf hanner tymor o rybudd arnom i wneud newidiadau yn ystod y tymor sy'n dilyn. Bydd angen gwneud hyn hefyd os bydd eich plentyn yn dymuno newid offeryn.
4. Pan fydd eich anfoneb yn barod i'w thalu, byddwch yn cael gwybod mewn e-bost. Rhaid i chi dalu ar-lein drwy ddilyn y ddolen yn eich e-bost. Bydd anfonebau'n cael eu codi fesul tymor. Bydd angen talu o fewn 21 diwrnod i'r e-bost hwnnw. Os na fyddwch yn talu ar amser, ni fydd eich plentyn yn gallu cael gwerau. Mae'r ffioedd presennol wedi'u rhestru uchod.
5. Colli gwerau - Os yw'r athro ar gael ond nad yw'r disgybl yn gallu mynd i wers am unrhyw reswm e.e. trip ysgol, diwrnod chwaraeon, salwch, ni ellir rhoi credyd am hynny. Os yw'r athro yn absennol, gwneir pob ymdrech i roi'r wers ar adeg arall. Os nad yw'r gwerau yn cael eu rhoi ar adeg arall, bydd credyd yn cael ei roi. Caiff credydau eu cyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.
6. Rhaid i'r disgyblion ymarfer yn unol â chyfarwyddiadau eu hathro a mynychu gwerau ar amser, a hynny gyda'u hofferyn a'u llyfrau perthnasol.

Cytundeb y Rhiant:

Cytunaf i dalu'r ffioedd fesul tymor ar gais Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro ar gyfer y ddarpariaeth o wersi. Byddaf yn sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud o fewn yr amser gofynnol (21 diwrnod ar ôl cael fy hysbysu).

Rwyf yn deall ac yn derbyn y gallai methu â gwneud taliadau o'r fath olygu na fydd modd i'm mhlentyn gael mwy o wersi nes i'r taliadau dyledus gael eu gwneud.

Rwyf yn deall bod y contract hwn yn barhaus nes i mi roi gwybod i ddod â'r gwersi i ben. Mae hyn yn cynnwys symud o un ysgol i'r llall o fewn Caerdydd a'r Fro, lle bydd gwersi yn parhau i'w cael eu rhoi i'm mhlentyn, yn amodol ar Wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro yn rhoi gwers cerddoriaeth yn yr ysgol honno.

Rwyf yn cadarnhau y byddaf yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i Wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro cyn hanner tymor pe fyddwn yn penderfynu i ddod â gwersi fy mhlentyn i ben. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu y bydd angen i mi dalu am y tymor dilynol yn llawn.

Rwyf yn deall bod cofrestru ar gyfer unrhyw weithgaredd sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro yn cadarnhau fy mod yn cytuno i'r holl delerau ac amodau a nodwyd uchod.

Dylai Disgyblion sy'n Cael Gwersi Cerddoriaeth:

- Ddod i wersi ar amser
- Sicrhau bod ganddynt eu hofferynnau ac unrhyw lyfrau perthnasol
- Ymarfer gartref – Ni fydd eich plentyn yn gwneud y cynnydd disgwylidig heb ymarfer.

CYFARWYDDIADAU COFRESTRU

Bydd modd cofrestru ar gyfer Medi 2018 o ddiwedd Gorffennaf 2018.

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau.

I gofrestru, cliciwch ar y ddolen hon: <https://live.paritor.com/p/2306>.

Ar ôl i chi glicio'r ddolen, dewiswch Creu Cyfrif. I greu cyfrif, rhowch eich cyfeiriad e-bost, cliciwch y botwm Anfon Cod Dilysu. Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch gyda chod. Nodwch y cod hwnnw yn y blwch a chliciwch Dilysu Cod. Yna, nodwch gyfrinair yr hoffech ei ddefnyddio. Bydd eich cyfrif yn cael ei greu. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'ch manylion mewngofnodi gan y bydd eu hangen nhw arnoch chi i wneud taliadau neu newidiadau yn y dyfodol.**

Yna, dilynwch y camau hyn i gofrestru:

- Cliciwch Cofrestru ar gyfer Gweithgaredd
- Dewiswch Ysgol
- Dewiswch Wers
- Dewiswch Gyfradd Gweithgaredd e.e. Grŵp/Pâr/Unigolyn
- Nodwch Fanylion y Disgybl
- Dewiswch y Berthynas â'r Plentyn

Gynted ag y byddwch wedi mynd drwy'r broses hon byddwch yn dod i'r Man Talu. Mae'r tab Newid Manylion y Talwr yn flwch llwyd tua hanner ffordd i lawr y dudalen. Cliciwch ar hyn a nodwch eich manylion.

Bydd crynodeb o'r hyn yr ydych wedi cofrestru ar ei gyfer yn cael ei ddangos; cadarnhewch ei fod yn gywir a chliciwch rwy'n cytuno â'r Telerau ac Amodau. **Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y Telerau ac Amodau.** Wedyn dewiswch Cofrestru. Fyddwch chi ddim wedi cofrestru tan i chi glicio ar Cofrestru.

Byddwch wedyn yn derbyn e-bost cadarnhau yn dweud eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus.

Ar ôl i chi gofrestru, caiff lleoedd eu cadw mewn gwersi ar gyfer eich plentyn oni fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am wneud fel arall. Fydd dim rhaid i chi ailgofrestru bob tymor.

Caiff anfonebau eu codi'n electronig a chewch chi e-bost i roi gwybod pryd byddan nhw'n barod i'w talu. Mewngofnodwch i'ch cyfrif i wneud taliad ar-lein.

Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhyrnor yr Hydref, ar ôl cwblhau'r broses gofrestru, rhagdybiwch y caiff lleoedd ar wersi eu cadw ar gyfer eich plentyn oni fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am wneud fel arall. Os oes unrhyw resymau na allwn ni ddarparu gwersi ar gyfer eich plentyn, byddwn ni'n cysylltu â chi.


Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhymor y Gwanwyn neu'r Haf, cysylltwch a'r Swyddfa Gerdd i wneud yn siŵr bod yr athro'n gallu bod ar gael.

CANLLAW SGRÎN AR GOFRESTRU

Os yw'n well gennych chi ddilyn sgrinluniau, gweler isod
Cofrestru'ch plentyn ar gyfer Gwersi Cerdd mewn sgrinluniau
Cliciwch ar y ddolen <https://live.paritor.com/p/2306>

Bydd modd cofrestru ar gyfer Medi 2018 o ddiwedd Gorffennaf 2018.

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau i chi



Rhaid i chi Greu Cyfrif i gofrestru'ch plentyn ar gyfer gwersi

Dewis Creu Cyfrif


The image shows a screenshot of the Schooble account creation form. The form is titled 'SCHOUBLE' and includes a description: 'Schooble is an identity management system that assists in safeguarding user access to data in a highly secure and interactive environment.' The form has four input fields: 'Email Address', 'Verification code', 'New Password', and 'Confirm New Password'. There are red arrows pointing to each of these fields. At the bottom, there is a green 'Create' button and a grey 'Cancel' button. The 'Create' button is circled in red. Below the buttons, there is a note: 'Please ensure you have clicked "Send verification code" and retrieved this code from your email address before creating a New Password.'

Nodwch gyfeiriad e-bost, defnyddir yr e-bost hwn i roi gwybod i chi pryd y bydd anfonebau'n barod i'w talu.


Cliciwch y botwm Anfon Cod Dilysu. Bydd e-bost yn cael ei anfon atoch gyda chod. Nodwch y cod hwnnw yn y blwch a chliciwch Dilysu Cod.

Yna, nodwch gyfrinair yr hoffech ei ddefnyddio. Rhaid i'ch cyfrinair gynnwys o leiaf wyth nod a thri o'r pedwar opsiwn canlynol; priflythyren, llythyren fach, rhif neu symbol. Cadarnhewch eich cyfrinair drwy ei nodi eto yn y blwch Cadarnhau Cyfrinair Newydd. Gwnewch nodyn o'ch cyfrinair. Bydd angen hwn i fewngofnodi i'ch cyfrif i dalu anfonebau

Cliciwch ar Creu Botwm




Cliciwch Cofrestru ar gyfer Gweithgaredd




Dewiswch Ysgol – Cliciwch ar saeth ar ddiwedd y maes i ddangos rhestr ddewis. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis yr ysgol gywir

Cliciwch Nesaf



Dewiswch Wers – Cliciwch ar saeth ar ddiwedd y maes i ddangos yr offeryn yr hoffai'ch plentyn ei ddysgu

Cliciwch Nesaf



Dewiswch y math o wers yr hoffech ei chael. Noder bod opsiynau eraill a gwersi pâr/unigol, gweler y Ffioedd am Wersi Cerdd 2018/2019 uchod. Os byddai'n well gennych chi ddewis opsiwn nad yw wedi'i restru, dewiswch unrhyw fath o wers ac ar ôl cofrestru, cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd a byddwn ni'n diweddarw'ch cyfrif i chi.

Registration

Step Three | Pupil

Please tell us who you would like to enrol for this activity.

Diogel

Dywedech wrthym paw yr hollfich chi gofrestru ar gyfer y gweithgaredd hon.

Enrol an existing pupil

Enrol a new pupil

Please Enter Pupil Details

First Name

Middle Name

Last Name

Gender

Date of Birth

Ethnic Group

Emergency Contact No.

School

Free School Meals

Looked After Child

Disability

Any medical information

Any additional relevant information

Please Enter Address

Address Line 1

Address Line 2

Town

County

Post Code

Previous Next

Powered by Paribar

Dewiswch Cofrestru disgybl newydd

Nodwch Enw'r Disgybl

Nodwch Gyfeiriad y Disgybl

Dewis Gwryw / Benyw

Nodwch Ddyddiad Geni


Nodwch Rif Cyswllt mewn Argyfwng

Nodwch a yw unrhyw un o'r opsiynau'n berthnasol e.e. Prydau Ysgol Am Ddim ac ati yn berthnasol

Nodwch a oes gwybodaeth feddygol y mae'n rhan i'r athro fod yn ymwybodol ohoni neu a yw'ch plentyn yn cael cymorth gydag Anghenion Dysgu

Unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i'r athro fod yn ymwybodol ohoni

Cliciwch Nesaf


Welcome [\[LOGOUT\]](#)

CCVG Music Service Portal / Gwasanaeth Cerdd [Home](#) [About Partitur](#)

Registration

Step Six | Checkout

Congratulations, this Pupil has been registered for music lessons. Please ensure you complete the Full Payer Details section below. You will receive an electronic invoice in due course. Please [log into your account to make payment online](#).

If you have any questions please contact us on ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk

Tudalen Dalu

Llongyfarchiadau, mae'r disgybl wedi cael ei gofrestru ar gyfer gwersi cerdd. Sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adran Golygu Manylion Talwr isod. Byddwch yn derbyn anfoneb electronig maes o law. Newngofnodwch i'ch cyfrif i wneud talied ar-lein.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyffwrdd â ni ar ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk

Payer Details

Name

Address

Post Code

Home Tel No

Mobile Tel No

Email Address ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk

[Edit Payer Details](#)


Pupil Name	DOB	Gender	Venue	Activity	Activity Rate	Hire Required	Cost	Discount	Amount to Pay	
Mickey Mouse	01/07/2018	M	Adamsdown Primary School	French Horn/Corn Frenyig	Group	N/A	£55.00	-	£55.00	Edit Remove
Total Amount to Pay:									£55.00	

I agree to the [terms and conditions](#)

[Add Another Pupil](#) [Enrol](#) [Cancel Application](#)

Powered by Partitur

Cliciwch Golygu Manylion Talwr


Welcome Minnie Mouse [\[LOGOUT\]](#)

CCVG Music Service Portal / Gwasanaeth Cerdd [Home](#) [About Partitur](#) [Sign In](#)

My Details

Please enter your contact information

Title [Miss](#)

First Name

Last Name

Address Line 1

Address Line 2

Town

County

Post Code

Tel No


Mobile No

[Update](#)

Powered by Partitur

Llenwch y wybodaeth ar y sgrîn hon

Cliciwch Diweddarau


Welcome Minnie Mouse [\[LOGOUT\]](#)

CCVG Music Service Portal / Gwasanaeth Cerdd [Home](#) [About Partitur](#)

Registration

Step Six | Checkout

Congratulations, this Pupil has been registered for music lessons. Please ensure you complete the Full Payer Details section below. You will receive an electronic invoice in due course. Please [log into your account to make payment online](#).

Name **Miss Minnie Mouse**

Address **24
Lake Road
Toytown
Cardiff**

Post Code **CF24 5EF**

Home Tel No **02920123456**

Mobile Tel No **07123456789**

Email Address ccvgmusic@ccvgmusiccardiff.gov.uk

[Edit Payer Details](#)

Pupil Name	DOB	Gender	Venue	Activity	Activity Rate	Hire Required	Cost	Discount	Amount to Pay	
Mickey Mouse	01/07/2018	M	Adamsdown Primary School	French Horn/Corn Frenyig	Group	N/A	£55.00	-	£55.00	Edit Remove
Total Amount to Pay:									£55.00	

I agree to the [terms and conditions](#)

[Add Another Pupil](#) [Enrol](#) [Cancel Application](#)

Powered by Partitur

Bydd crynodeb yn ymddangos o'r manylion cofrestru e.e. enw plentyn, dyddiad geni, Ysgol, Offeryn, math o wers a chost fesul tymor.

Gwiriwch fod y wybodaeth yn gywir

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y Telerau ac Amodau.

Ticiwch yn y blwch i gytuno i'r Telerau ac Amodau.

Os ydych chi angen cofnodi ail offeryn ar gyfer eich plentyn, cliciwch Ychwanegu Disgybl Arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis "Cofrestru disgybl presennol" ar y sgrîn nesaf

Os oes angen i chi gofrestru plentyn arall, cliciwch Ychwanegu Disgybl Arall. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis "Cofrestru disgybl newydd" ar y sgrîn nesaf

Ar ôl i'r holl wybodaeth gael ei chofnodi, cliciwch Cofrestru

Byddwch wedyn yn derbyn e-bost cadarnhau yn dweud eich bod wedi cofrestru'n llwyddiannus.

Caiff anfonebau eu codi'n electronig a chewch chi e-bost i roi gwybod pryd byddan nhw'n barod i'w talu. Mewngofnodwch i'ch cyfrif i wneud taliad ar-lein.

Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhymor yr Hydref, ar ôl cwblhau'r broses gofrestru, rhagdybiwch y caiff lleoedd ar wersi eu cadw ar gyfer eich plentyn oni fyddwch chi'n rhoi gwybod i ni am wneud fel arall. Os oes unrhyw resymau na allwn ni ddarparu gwersi ar gyfer eich plentyn, byddwn ni'n cysylltu â chi.

Os ydych chi'n cofrestru'ch plentyn i ddechrau gwersi yn Nhymor y Gwanwyn neu'r Haf, cysylltwch a'r Swyddfa Gerdd i wneud yn siŵr bod eich Athro'n gallu bod ar gael.

Anfonebau

Caiff anfonebau eu codi'n electronig a chewch chi e-bost i roi gwybod pryd byddan nhw'n barod i'w talu. Caiff yr hysbysiad hwn ei anfon i'r cyfeiriad e-bost y cofrestroch chi ag ef.

Caiff copi o'r anfoneb ei atodi at yr e-bost hysbysu er gwybodaeth i chi'n unig. Rhaid talu ar-lein.

Bydd anfonebau'n cael eu codi fesul tymor. Bydd angen talu o fewn 21 diwrnod i'r e-bost hwnnw. Os na fyddwch yn talu yn yr amser hwnnw, ni fydd eich plentyn yn medru cael gwersi.

I dalu ar-lein, dilynwch y camau isod:

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau.

- Cliciwch ar y ddolen <http://live.paritor.com/p/2306>
- Dewiswch Mewngofnodi a mewngofnodwch i'ch cyfrif – os na allwch gofio'ch cyfrinair, dewiswch **Wedi Anghofio'ch Cyfrinair** a dilynwch y cyfarwyddiadau i'w ail-osod.
- Dewiswch **Fy Anfonebau**
- Dewiswch y **Botwm Talu** ar ddiwedd Manylion yr Anfoneb
- Nodwch fanylion talu

Cwestiynau Cyffredin

1. Sut ydw i'n cofrestru fy mhlentyn i gael gwersi cerddoriaeth?

I gofrestru, ewch naill ai i'r dudalen gofrestru ar ein gwefan <https://ccvgmusicsservice.org/> neu cliciwch ar y ddolen yma <http://live.paritor.com/p/2306>. Gellir dod o hyd i gyfarwyddiadau ar sut i gofrestru ar dudalen ... y ddogfen hon.

2. Beth yw'r broses os yw fy mhlentyn am roi'r gorau i wersi?

Os ydy eich plentyn am roi'r gorau i wersi, rhaid i chi roi hanner tymor o rybudd i'r swyddfa, a hynny'n ysgrifenedig. Bydd y gwersi yn dod i ben ar ddiwedd y tymor. Os bydd gwersi'n dod i ben hanner ffordd drwy'r tymor, rhaid talu'r ffioedd am y tymor cyfan. Rhaid i'r rhybudd ysgrifenedig gael ei dderbyn erbyn y dydd Gwener cyn hanner tymor, ynglŷn â gorffen ar ddiwedd y tymor. Ysgrifennwch at Wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu e-bostiwch gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk i dynnu eich plentyn o wersi. **Ni fydd rhoi rhybudd ar lafar neu'n ysgrifenedig i'r athro yn cael ei ystyried yn ddigonol. Yn absenoldeb y rhybudd ysgrifenedig hwn, bydd tymor pellach o ffioedd yn daladwy.**

3. Beth yw'r broses am newid y math o wersi/offeryn ar gyfer fy mhlentyn?

Os ydych am newid y math o wers y mae eich plentyn yn ei dderbyn e.e. O Grŵp i Bâr ac ati, ysgrifennwch yn syth at y swyddfa. Ysgrifennwch at Wasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro, Ystafell 422, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu e-bostiwch gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk . Bydd rhaid i ni gysylltu â'r athro i weld a ydy hyn yn bosib. Nodwch na ellir newid y math o wersi hanner ffordd drwy'r tymor; mae angen o leiaf hanner tymor o rybudd arnom i wneud newidiadau yn ystod y tymor sy'n dilyn. **Mae hyn yn wir os yw eich plentyn am newid offeryn.**

4. Beth yw'r broses os yw fy mhlentyn yn newid ysgol?

Os yw eich plentyn yn newid ysgol ym mis Medi ac yn dymuno parhau â gwersi cerdd, cysylltwch â'r swyddfa gydag enw'r ysgol newydd er mwyn i ni allu sicrhau bod y gwersi gofynnol ar gael. Os na fyddwch yn cysylltu â'r swyddfa ni allwn sicrhau y bydd eich plentyn yn cael ei gynnwys mewn gwersi.

5. Beth sy'n digwydd os yw eich plentyn yn colli gwर्स?

Os yw'r athro ar gael ond nad yw'r disgybl yn gallu mynychu gwर्स am unrhyw reswm e.e. trip ysgol, diwrnod chwaraeon, salwch, ni ellir rhoi credyd am hynny. Os yw'r athro yn absennol, gwneir pob ymdrech i roi'r wers ar adeg arall. Bydd yr athro naill ai'n rhoi'r wers ar ddyddiad arall, neu'n rhoi amser ychwanegol yn ystod gwर्स arall. Os oes angen gwneud yn iawn am wersi a gollwyd, gwneir hyn fel arfer yn ystod tymor yr haf pan fydd amser rhydd ar

gael o bosib. Os na roir y wers rhoddir credyd yn lle. Caiff credydau eu cyfrif ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

6. Pryd fydd gwrs fy mhleintyn?

Mae'r gwrs cerdd yn cael eu cynnal yn ystod oriau ysgol. Gan fod gwrs cerddoriaeth yn cael eu darparu yn ystod oriau ysgol, bydd yr Athro a'r Ysgol yn ceisio sicrhau nad yw disgyblion yn colli pynciau craidd.

7. Beth sy'n digwydd os yw gwrs fy mhleintyn yn cyd-daro â diwrnod HMS neu Wyl y Banc?

Bydd gwrs yn cael eu hail-drefnu ar gyfer dyddiad arall. Nodwch, gall gwrs sy'n cael eu hail-drefnu ddigwydd ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn academaidd. Os na fydd yn bosib ail-drefnu'r wers/gwrs caiff credyd ei roi.

8. A all fy mhleintyn ddechrau gwrs hanner ffordd drwy'r tymor?

Rydym yn argymhell dechrau gwrs ar ddechrau'r tymor. Os ydych am ddechrau yn ystod y tymor, rhaid talu'r ffioedd am yr holl tymor er bod gwrs wedi'u colli. Cysylltwch â ni os ydych am ddechrau ar ôl i'r tymor fynd rhagddo, gan fod rhaid i ni gadarnhau gyda'r athro bod lle ar gael ar gyfer eich plentyn.

9. Beth sy'n digwydd os yw fy mhleintyn yn anghofio ei offeryn?

Rhaid i'ch plentyn fynychu'r wers fel arfer. Efallai bydd cyfle i fenthyg offeryn, neu bydd yr athro yn rhoi tasg gerddorol arall.

10. Mae fy nghyfeiriad e-bost / rhif ffôn / cyfeiriad gartref wedi newid. Sut ydw i'n diweddarau fy manylion?

Ar gyfer unrhyw un o'r ymholiadau uchod, cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd ar naill ai 029 2087 2951 neu 029 2087 2883.

11. Sut ydw i'n talu fy anfoneb am wers cerdd?

Byddwch yn talu'ch anfoneb ar-lein. [Cliciwch](#) ar y ddolen am gyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn.

12. Nid ydw i wedi derbyn fy anfoneb.

Gwiriwch eich e-byst Sbam. A ydych chi wedi newid eich cyfeiriad e-bost ers cofrestru eich plentyn? Caiff eich e-bost ei anfon o gwasanaethcerddccbm@caerdydd.gov.uk gyda Ffioedd Dysgu Cerddoriaeth yn y pwnc, ac Anfoneb PDF wedi'i hatodi. Os nad yw'r e-bost yn eich Mewnlwch neu'ch ffolder Sbam, cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd ar naill ai 029 2087 2951 neu 029 2087 2883.

13. Ni allaf fewngofnodi i fy nghyfrif.

Gallai defnyddio ffôn symudol neu iPad achosi problemau. Rhowch y cyfeiriad e-bost a'r cyfrinair a ddefnyddioch chi i greu eich cyfrif. Os na fedrwrch gofio eich cyfrinair, cliciwch ar Anghofio Cyfrinair a byddwch yn gallu

ei ailosod drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin. Ar ôl dilyn y camau hyn, os na fedrwch fewngofnodi o hyd, cysylltwch â Swyddfa'r Gwasanaeth Cerdd ar naill ai 029 2087 2951 neu 029 2087 2883

14. Sut allaf brynu offeryn drwy'r Cynllun Prynu â Chymorth (CPCh)?

Mae'r cynllun CPCh yn eich galluogi i brynu offerynnau yn rhydd o DAW.

Rhaid bod eich plentyn yn derbyn gwersi cerdd yn yr ysgol gan un o'n Hathrawon Cerdd. Gall Athro Cerdd eich plentyn eich cynghori ar offerynnau priodol a dylent arwyddo'r ffurflenni CPCh. I weld y ffurflen CPCh a darllen rhagor o fanylion, ewch i'r wefan <http://www.ccvgmusicsservice.org> . I weld pris offerynnau, ewch i'r wefan uchod. Nodwch, nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob offeryn.

15. A all fy mhlentyn roi cynnig ar offeryn cyn ei brynu?

Mae dau o'n cyflenwyr yn lleol, a gallwch fynd yno i weld amrywiaeth o offerynnau a thrafod eich anghenion.

Y cyflenwyr yw:

Pencerdd Music, 4 Station Approach, Penarth, VOG CF64 3EE

Neu

Ev-Entz, Crawford Street, Casnewydd, NP19 7AY